# Cyngor Cymuned Llanystumdwy

## Cofnodion Rhaglen waith y Cyngor - nos Iau, 7fed o Fedi 2023 yn brydlon am 7:00 y.h. yn Neuadd Llanystumdwy a drwy Zoom (roedd yn bosib cael mynediad i'r cyfarfod drwy gysylltu ar ebost gyda'r Clerc).

**Yn bresennol** Y Cynghorwyr Sian Angharad Parry (Cadeirydd), Aled Lloyd Evans (Is-gadeirydd), Aled Davies, Rhys Tudur, Anwen Jones, Tegid Jones, Gareth O. Davies, Dylan Thomas, Euros Jones a'r Clerc.

1. **Ymddiheuriadau** – Margaret Griffith, Darren Morley Angela Williams, Delyth Parry, Miriam Williams, a Sion Aled Jones.

2. Cyflwyno a chadarnhau cofnodion cyfarfod y Cyngor gynhaliwyd ar 6ed o Orffennaf 2023.

3. Llofnodi cadarnhâd taliadau BACS Gorffennaf ac Awst 2023 (Cadeirydd yn ei llofnodi).

4. **Datgan buddiant personol - neb.**

5. **Materion gan Cyngor Gwynedd**

**Rhaglen waith trafnidiaeth a priffyrdd mis Medi 2023**

| Lleoliad Gwaith | Disgrifiad o'r Gwaith | Gwasanaeth |
|---|---|---|
| Cylchdro Afonwen | Atgyweirio wal | Priffyrdd |
| Pont Llanystumdwy | Cerbio | Priffyrdd |

6. **Rhybuddion gan Adran Trafnidiaeth**

a) **Rhybudd cau'r Ffordd o A497 cylchfan Afonwen tuag at y rheilffordd – 02.11.2023** - adfer polyn diffygiol/ceblau BT Openreach- 1-3 diwrnod.

b) **Rhybudd cau rhan o'r A497 rhwng Cricieth a Bron Eifion - 01.11.2023** - creu mynediad i Ysgol Treferthyr rhwng 1–3 diwrnod a bydd yn cael ei wneud yn ystod y nôs yn unig.

c) **Rhybudd cau Ffordd Dosbarth III yn Llanarmon – ger Bwthyn Cerrig ar 13.09.2023** am 1-3 diwrnod – gwaith adfer polyn a cheblau BT Openreach.

ch) **Rhybydd cau ffordd ger yn Penbryn, Llangybi ar 26.09.23** – am 1-3 diwrnod – gwaith adfer polyn a cheblau BT Openreach.

7. **Rhybudd Erthygl 4 ar gyfer rheoli'r defnydd o dai preswyl** – ar gyfer ardal awdurdod cynllunio lleol Cyngor Gwynedd sydd y tu allan i Barc Cenedlaethol Eryri. Ar hyn o bryd

mae'n bosib newid defnydd tŷ preswyl sydd yn brif gartref i ddefnydd ail gartref neu lety gwyliau tymor byr heb orfod cael caniatâd cynllunio.
Pwrpas y cyfarwyddyd Erthygl 4 yw diddymu'r hawl i newid defnydd heb ganiatâd cynllunio. Os bydd hyn yn cael ei ganiatau, bydd angen caniatâd cynllunio cyn newid defnydd eiddo o'r 1af o Fedi 2024 ymlaen.
Mae holiadur ar wefan Cyngor Gwynedd o dan www.gwynedd.llyw.cymru/erthygl4 neu gellir ebostio sylwadau ar erthygl4@gwynedd.llyw.cymru a'r dyddiad cau yw **13eg o Fedi 2023**.
**Gofynwyd i'r Clerc gwblhau'r holiadur gan ddatgan fod y Cyngor o blaid Erthygl 4.**

8. **Cyngor Gwynedd – ceisiadau cynllunio yn y gymuned**

a) **Cais Cynllunio rhif: C23/0603/41/LL - Capel Rhoslan, Rhoslan**, codi tŷ unllawr, creu mynedfa a darpariaeth parcio a gosod system drin carthion preifat. **Cefnogi.**

b) **Cais Cynllunio rhif: C23/0662/41/YA - Cabin Wood, Llanystumdwy,** datblygiad arfaethedig o fynediad, ardaloedd gweithio, storio a lloches, lleoli carafan sydd yn addas ar gyfer cynnal a chadw'r coetir, prosesu deunydd o'r coetir a chreu cynnyrch ynghyd a storio cyfarpar. **Gwrthod – oherwydd ei fod yn ol-gais ar ol agor mynedfa heb ganiatad a bod angen cydymffurffio hefo rheolau. Mae'r fynedfa yn mynd i lon beryglus. Mae amheuaeth hefyd fod rhywun yn preswylio yno.**

c) **Apél o dan Adran 78(i) – Ty'n Lon, Afonwen – CAS-02621-J3Y9W6** – sefydlu maes carafanau teithiol (19 uned) gyda bloc toiled a gwaith cysylltiedig. Ymgeisydd wedi apelio i Lywodraeth Cymru parthed y safle uchod ar 09.08.2023, ac eisiau unrhyw sylwadau pellach erbyn **06.09.2023**. Fe anfonwyd y sylwadau isod at Adran Cynllunio Cyngor Gwynedd ar 12.01.2022:-

*"Mewn cyfarfod diweddar o'r Cyngor Cymuned ar y 6ed o Ionawr 2022, trafodwyd y cais cynllunio isod, a penderfynwyd fel â ganlyn:*
***Cais rhif: C21/1038/41/LL – Ty'n Lon, Afonwen*** *– sefydlu maes carafanau teithiol (19 uned) gyda bloc toiledau a gwaith cysylltiedig.*
***Gwrthwynebu ar sail gorddatblygiad a bod llawer o feysydd carafannau ar hyd yr arfordir yn barod."***
Derbyn – dim sylwadau pellach.

9. **Rheolau Sefydlog newydd 2023** – yn dilyn cyfarfod ar 06.07.2023 roedd rheolau newydd wedi cael ei creu/addasu ac angen ei mabwysiadu, yn dilyn derbyn drafft gan Un Llais Cymru. Y Clerc wedi ail sgwennu'r rheolau, ond yn dal i ddisgwyl ateb gan Un Llais Cymru am pwynt 18.3 sydd yn cyfeirio at Rheol 17(f) ar tudalen 20, ond nid yw hwn yn bodoli, felly bydd angen ei mabwysiadu yn y cyfarfod nesaf.
Y Clerc hefyd wedi derbyn ymateb gan Mel ab Owain, Un Llais Cymru, yn dweud ei fod wedi siarad hefo'r Prif Weithredwr am ddefnyddio'r wyddor Saesneg yn lle y wyddor Gymraeg yn y polisi drafft, a dywedodd fod Cadeirydd Un Llais Cymru wedi derbyn nifer o gwynion tebyg. Mae'n gobeithio na fydd hyn yn digwydd eto.

**Materion yn y gymuned.**

10. **Llanystumdwy**
Llinnellau melyn i atal cerbydau rhag parcio ger Maen y Wern wedi cael ei gosod. **Derbyn.**

11. **Llun o eglwys a phont Llanystumdwy** – derbyniwyd ebost gan aelod o'r cyhoedd yn cynnig rhoi llun i'r Cyngor Cymuned i'w osod rhywle addas o fewn y pentref, ac y byddai'n

fodlon ei anfon at y Clerc yn ddi-gost. Gofynwyd i'r Clerc dderbyn y cynnig ac y byddent wedyn yn penderfynu lle i'w osod yn y pentref.

12. **Rhoslan/Ynys**

13. **Chwilog**

**a) Problemau parcio yn Chwilog**

Ymweliad safle rhwng Iwan ap Trefor ac Euryn Owen o Adran Priffyrdd, Cyngor Gwynedd ar 06.07.23, hefo'r Cynghorydd Rhys Tudur, Aled Lloyd Evans a'r Clerc i drafod sawl problem draffig yn Chwilog, sef parcio ger yr ysgol, lon yn culhau ger Siop Cigydd, llwybr i Afonwen. **Dywedwyd ei bod yn gobeithio byddai rhoi arwyddion 20 milltir yr awr yn datrys hyn, ac y byddent yn cadw golwg ar y sefyllfa.**

b) **Peintio dwy fainc ym mhentref Chwilog** – fe wnaeth y Cynghorydd Aled Evans, Lois Povey a'r Clerc beintio'r ddwy fainc o eiddo'r Cyngor hefo paent du 'glos', yn barod at yr Eisteddfod Genedlaethol. Cytunwyd fod yr holl harddu a wnaed o fewn y gymuned wedi bod yn llwyddiant mawr.

c) **Llwybr o Chwilog i Afonwen- Teithio Llesol**

Derbyniwyd copi o'r rhaglen waith wedi ei pharatoi ar gyfer y cynllun Afonwen i Chwilog gan y Cynghorydd Rhys Tudur.

Mae'r gwaith o gynnal arolwg o'r system ddreiniau wedi cychwyn, ac yn ôl y rhaglen waith, ar 14.08.2023 dylai'r gwaith o ymgysylltu a'r tir feddianwyr fod wedi cychwyn.

ch) **Tafarn y Madryn - Cais am lythyr o gefnogaeth** – maent yn cysidro gwneud cais am grant er mwyn gallu ail wneud eu gardd gefn fel bod y babell sydd yno'n barod yn troi'n strwythr sydd efo to'n cau dros y llawr ddi-do sydd ganddynt o flaen y llwyfan. Y bwriad yw fod digwyddiadau a phenblwyddi ac ati yn gallu cymryd lle o dan do, a bod sied yn cymryd lle y babell wen sydd yno.

Mae'r Madryn yn gobeithio paratoi eu cais er mwyn ei anfon cyn yr 18.09.2023. Gofynwyd i'r Clerc anfon llythyr o gefnogaeth atynt ar ran y Cyngor.

14. **Pencaenewydd/Sardis**

15. **Llangybi**

a) **Cae Chwarae** – yn dilyn derbyn adroddiad gan 'Fields in Trust' llynedd, a derbyn gwybodaeth gan y Cadeirydd, mae'r matiau du sydd yno angen sylw eto ac yn colli ei lliw ar esgidiau plant. Derbyniwyd pris gan G.L. Jones Playgrounds Ltd am £21,210.00 ( yn cynnwys £3,535.00 o TAW), am godi'r hen deils ac ailwynebu'r 3 darn hefo 'wet-pour' du.

Y Clerc wedi cysylltu hefo Nia Hughes, Swyddog Ariannu Cronfa Gymunedol y Loteri ar 19.07.2023. Eglurodd byddai modd gwneud cais am arian, sef uchafswm £10,000.00 tuag at wneud gwellianau i'r cae chwarae, ac mae posiblrwydd y bydd y ffigwr hwn yn cynyddu i £20,000.00 flwyddyn nesaf. Dywedodd y byddai'n anfon manylion atom. **Gofynwyd i'r Clerc ei holi eto i weld tybed os byddai'n bosib gwneud cais eleni a flwyddyn nesaf.**

16. **Materion Ariannol**
Adroddiad Ariannol gan y Clerc a'r Swyddog Ariannol Cyfrifol.
Gwnaeth y Clerc anfon ebost at y cynghorwyr i gyd cyn y cyfarfod, drwy gynnwys dogfen 'excel'o'r sefyllfa ariannol hyd at 30.08.2023. Mae hyn yn cadw golwg manwl ar y gwariant sydd eisioes wedi ei wneud.

17. **Praesept** – derbyniwyd yr ail hanner, sef £9,500.00 ar 24.08.2023 gan Cyngor Gwynedd.

18. **Archwilio allannol gan Lywodraeth Cymru** – y Clerc wedi anfon y dogfennau i gael ei archwilio drwy ebost at Archwilwyr Cymru. Hefyd mae rhybudd hysbysiad archwilio wedi cael ei osod ar wefan y Cyngor, a'r hysbysfyrddau yn pennu'r dyddiad ar gyfer hawliau etholwyr i ofyn cwestiynau a gwneud gwrthwynebiadau yn ystod yr archwiliad.

19. **Treth ar werth** – wedi hawlio £839.70 yn nol am y flwyddyn 01.04.2022 – 31.03.2023 ar 02.09.2023.

20. **Rhestr datganiad blynyddol o gydnabyddiaeth a wnaed i gynghorwyr rhwng 01.04.2022–31.03.2023**. Mae'r Clerc wedi anfon y rhestr at Banel Annibynnol Cymru ar gydnabyddiaeth ariannol. **Gwnaeth pawb ddatgan nad oeddent eisiau hawlio'r swm o £150.00.**

21. **Cynhadledd Un Llais Cymru – 30.09.2023 yng nghae'r Sioe, Llanelwedd** – y thema yw Ról Cynghorau Cymuned a Thref i'r dyfodol – **neb am fynd.**

22. **Taliadau** BACS angen cael ei gwneud yn dilyn y cyfarfod:

| **Enw/Rheswm** | Rheswm | Pris £ | TAW | Cyfanswm Taliad net £ | Taliad BACS:- £ |
|---|---|---|---|---|---|
| Capel Pencaenewydd | Llogi ar gyfer cyfarfodydd, mis Ionawr/Chwefror, Mawrth, Ebrill a Mai 2023 | **80.00** | | **80.00** | **80.00** |
| Cyngor Gwynedd (007950C0015912V) | Archwilio mewnol | **246.00** | **41.00** | **205.00** | **246.00** |
| ALCC (Association of Local Council Clerks) | Tâl aelodaeth 04.09.23-04.09.24 | **50.00** | | **50.00** | **50.00** |

23. Cyflog mis Awst 2023 y Clerc i'w rannu rhwng y Clerc a Chyllid a Thollau EM.

| **Enw/Rheswm** | Swm £ | Cyfanswm Taliad net £ | Taliad BACS:- £ |
|---|---|---|---|
| Cyflog sylfaenol y Clerc, Awst 2023 35 awr y mis x £12.73 = £445.55 | 445.55 = Llai treth £89.20 = **£356.35** | **356.35** | **356.35** |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Cyllid a Thollau EM<br>Treth ar enillion y Clerc Awst 2023 | 446.00 x 20% =<br>**£89.20** | **89.20** | **89.20** |
| Costau swyddfa'r Clerc Awst 2023 | **£26.00** | **26.00** | **26.00** |

**Materion Hwyr**
Cyfarfod Cyhoeddus- Trafod dyfodol Gwasanaeth Ambiwlans Awyr – Ysgol Glan y Mor, Pwllheli 18.10.23 am 18:30.

Bydd y cyfarfod nesaf nos Iau **05.10.2023**, yn Neuadd Chwilog ac yn rhithiol am 7:00 yr hwyr.

Cynhelir cyfarfod Busnes/Cyllid hefyd rhwng 6:30 – 7:00 ar yr un noson.

**It is possible to get an English translation of any minute, please contact the Clerk.**